

# Canolfan y Chweched Dosbarth
# Prospectws

## 2026 - 2028

YSGOL
DYFFRYN
CONWY



# Mr Owain Gethin Davies

## Pennaeth

Pleser yw cyflwyno i'ch sylw Lyfryn Cwricwlwm Blwyddyn 12 ar gyfer Medi 2026. Lleolir yr ysgol yn nhref Llanrwst gyda'r ysgol yn gwasanaethu'r dref a'r holl Ddyffryn ac mae ein 6ed dosbarth yn cynnwys disgyblion sydd wedi pontio o'r ysgol a thu allan i'n dalgylch naturiol. Mae'r ysgol ar safle unigryw a hyfryd sydd yn ysgogi a chefnogi dysgu.

Hyderaf y bydd y wybodaeth yn y llyfryn hwn, ynghyd â'r cyngor a gewch gan staff, yn gymorth i chi ddewis y pynciau mwyaf addas i'w hastudio yn y chweched dosbarth.

Rwy'n sicr y byddwch yn mwynhau'r profiad o fod yn fyfyriwr chweched dosbarth yn Ysgol Dyffryn Conwy, gan ddilyn y cyrsiau newydd a fydd yn cychwyn fis Medi. Ond mae'r chweched dosbarth yn golygu tipyn yn fwy nag astudio pynciau at arholiad. Mae hefyd yn gyfle i bobl ifanc aeddfedu a datblygu ymhellach. Bydd eich profiadau'n cael eu cyfoethogi gan weithgareddau allgyrsiol a chyfrifoldebau amrywiol oddi allan i'ch gwersi ffurfiol. Gwnewch yn fawr o'r rhain a'r gefnogaeth fentora a bugeiliol.

Mae yna arlwy eang o gyrsiau yn cael eu cynnig yma yn yr ysgol a thrwy'r cyrsiau LINC. Fodd bynnag, yn dilyn y broses o wneud dewisiadau mae posibilrwydd na fydd yr ysgol yn gallu rhedeg pob cwrs os na fydd niferoedd digonol yn dewis y pwnc. Byddwn yn sicrhau bod eich plentyn yn derbyn cyngor ac arweiniad. Yn yr un modd os oes ganddoch chi gwestiynau pellach neu yn dymuno cyfarfod, mae croeso i chi gysylltu gyda'r ysgol.

Dymunaf yn dda i bob un ohonoch yn eich arholiadau'r Haf yma ac edrychwn ymlaen at eich croesawu'n ôl fis Medi.

Yn gywir,

Mr Owain Gethin Davies



# Mrs Elliw Davies

## Pennaeth Canolfan y Chweched

Mae lles a llwybrau pellach disgyblion yn bwysig iawn i mi fel Pennaeth y 6ed dosbarth. Rwyf yn ymfalchïo mewn sicrhau bod gan ein disgyblion y gefnogaeth maent ei angen er mwyn gwneud penderfyniadau pwysig am eu camau nesaf, gwneud ceisiadau UCAS, a pharatoi am lwybrau eraill megis Prentisiaethau Uwch a chyflogadwyedd.

Drwy ein partneriaeth LINC Conwy rydym yn cynnig arlwy o gyrsiau ychwanegol galwedigaethol ac academaidd, a threfnir bod y disgyblion yn cael cludiant i'r canolfannau astudio eraill yng Nghonwy. Rydym hefyd yn darparu pynciau mwy galwedigaethol eu natur megis BTEC Addysg Gorfforol a Busnes ar safle yr ysgol.

Mae Bloc Chweched pwrpasol ar gyfer y Chweched Dosbarth. Mae hefyd ystafelloedd gweithio ar gael i Flwyddyn 12 ac 13 gyda mentor 6ed dosbarth yn cynnig cymorth a sicrhau fod pob disgybl yn gwneud defnydd effeithiol o'r ystafelloedd hyn. Mae mynediad i'r wê ar gael drwy gyswllt diwifr yr ysgol a chyfrifiaduron ar gael yn ystafell astudio'r 6ed.

Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn creu awyrgylch gyfeillgar, ofalgar yn y Chweched Dosbarth ac yn cynnig addysg sy'n galluogi i bob disgybl ddatblygu i'w lawn botensial. Cedwir llygad manwl ar gynnydd pob disgybl trwy gydol ei gwrs ac fe gysylltwn yn rheolaidd â rhieni.

Yn gywir,

Mrs Elliw Davies

Pennaeth Canolfan y Chweched Dosbarth

# Y chweched dosbarth

Mae bod yn aelod o Chweched Dosbarth Ysgol Dyffryn Conwy yn dod â breintiau a chyfrifoldebau. Mae'r ysgol yn ymgymryd i sicrhau ei bod yn cynnig addysg o'r ansawdd gorau posibl, tra'n disgwyl ymroddiad gan y myfyrwyr i fod yn aelodau cyfrifol o'r ysgol a'i chymdeithas. Neilltuwyd Canolfan y Chweched Dosbarth ar gyfer y Chweched Dosbarth i ymlacio a chymdeithasu yn ystod cyfnodau digyswllt.

Mae myfyrwyr Blwyddyn 12 yn chwarae rhan bwysig o fewn yr ysgol. Maent yn cynorthwyo staff mewn digwyddiadau, megis yr Eisteddfod Ysgol a Nosweithiau Agored. Hefyd maent yn cael cyfle i drefnu ac arwain gweithgareddau ar gyfer eu cyd-ddisgyblion, staff a'r gymuned. Yn ogystal maent yn rhoi cymorth i ddisgyblion iau, er enghraifft fel Bydis i Flwyddyn 7 neu fentoriaid sgiliau.

Fel rhan o'u hastudiaethau disgwylir i fyfyrwyr Chweched Dosbarth ymgymryd â gwaith annibynnol yn ogystal â mynychu gwersi ffurfiol. Mae Canolfan Y Chweched Dosbarth ar gael ar gyfer gwaith astudio a chaniateir mynediad i'r ystafelloedd cyfrifiaduron, y gweithdai a'r ystafell gelf fel bo'n briodol. Yn ddiweddar ychwanegwyd at y nifer o gyfrifiaduron sydd ar gael ac mae rhwydwaith di-wifr wedi ei osod trwy'r ysgol.

Mae gan fyfyrwyr Chweched Dosbarth rôl arweinyddol yn yr ysgol, felly mae'n holl bwysig eu bod yn cydymffurfio â rheolau ysgol a gosod esiampl dda i'r disgyblion iau.

Gall absenoldeb amharu ar gynnydd myfyrwyr a disgwylir iddynt fynychu'r ysgol yn rheolaidd. Pan mae absenoldeb yn anochel mae angen rhoi gwybod i'r ysgol yn unol â'r drefn arferol. Er ein bod yn cydnabod bod gan nifer o fyfyrwyr waith rhan amser, gofynnwn iddynt sicrhau nad yw hyn yn amharu ar eu gwaith ysgol.

Addysgir pob pwnc yn yr ysgol yn Bl 12 a 13 yn ddwyieithog er mwyn sicrhau dilyniant ieithyddol o Gyfnod Allweddol 4. Caiff y myfyrwyr hynny sy'n dymuno sefyll arholiadau allanol trwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg wneud hynny wedi trafodaeth bellach gyda'r ysgol.

## Pam dychwelyd i Ysgol Dyffryn Conwy?

- Canlyniadau ardderchog.
- Ethos hapus, cynhwysol a gofal bugeiliol arbennig.
- Cyngor gyrfaol.
- Dewis eang o gyrsiau mewnol ac allanol.
- Llwyddiant ysgubol mewn ceisiadau prifysgol.
- Gweithgareddau allgyrsiol.
- Adnoddau a chyfleusterau o ansawdd uchel.
- Cydweithio gyda staff a chyfeillion mewn awyrgylch cyfarwydd.



# Prifysgolion a Cholegau

Mae ceisiadau ar gyfer cyrsiau addysg uwch yn cael eu cwblhau a'u hanfon i UCAS (Gwasanaeth Mynediad i Golegau a Phrifysgolion) yn ystod tymor cyntaf Blwyddyn 13.

Mae'n bosibl i unrhyw fyfyriwr sy'n dymuno gwneud hynny fynychu cyrsiau a dyddiau agored a drefnir gan brifysgolion a cholegau er mwyn cael rhagflas o'r cyrsiau, y dulliau addysgu, y cyfleusterau a bywyd coleg yn gyffredinol.

Rhoddir cymorth ac arweiniad er mwyn llunio datganiad personol sydd yn rhan annatod o'r cais UCAS. Mae nifer o siaradwyr gwadd yn cael ei gwahodd i'r ysgol er mwyn rhoi syniadau ar gyfer llunio datganiad yn ystod blwyddyn 12 a dechrau blwyddyn 13.

Yn ystod blwyddyn 13 fe fydd pob myfyriwr yn derbyn ffug gyfweliad ffurfiol er mwyn eu paratoi ar gyfer mynychu cyfweliadau yn y prifysgolion a cholegau.

Mae cysylltiadau cryf gennym efo nifer o brifysgolion - yng Nghymru a thu hwnt i'r ffin gan gynnwys prifysgolion y Grŵp Russell, gydag o leiaf un disgybl ym mhob blwyddyn 6ed dosbarth yn llwyddo i gael lle i astudio ym Mhrifysgol Caergrawnt neu Rhydychen. Mae ein partneriaethau yng Nghymru yn aml yn golygu bod gan ddisgyblion llefydd diamod yn sgil llwyddiant mewn arholiadau ysgoloriaeth. Rydym yn hynod o falch hefyd yn llwyddiant disgyblion i gael mynediad i gyrsiau Meddygol (3 yn 2019).

## Gyrfaoedd

Cynghorir y disgyblion ynglŷn â dewis gyrfa gan Bennaeth y Chweched Dosbarth, Cyd-gysylltydd Gyrfaoedd yr ysgol neu gan Ymgynghorydd Gyrfaoedd 'Gyrfa Cymru'.

Defnyddir Swyddfa Gyrfaoedd yr ysgol ar gyfer cyfweliadau unigol neu gyfweliadau grŵp gyda'r Cydgysylltydd a/neu'r Swyddog Gyrfaoedd yn ôl yr angen. Gofynnir i rieni gysylltu â'r ysgol os dymunent fod yn bresennol yn ystod y cyfweliadau hyn.

# Gair gan y Prif Swyddogion

**Efa Dafydd - Prif Swyddog 2025-2026**

Mae’r atgofion o fod yn Ysgol Dyffryn Conwy am fod yn rai rwyf am drysori am oes ac anodd ydi i mi gredu fy mod ar fy seithfed blwyddyn yma yn astudio, mae blwyddyn saith yn teimlo yn bell iawn yn ôl. Roedd dychwelyd yn ol i’r chweched dosbarth yn benderfyniad hawdd iawn a hynny diolch i’r staff cefnogol a profiadol ac yr holl gyd-ddisgyblion arbennig sydd gennym yma yn yr ysgol. Fy hoff beth am yr ysgol yw’r ymdeimlad o berthyn sydd yma, mae pawb yn adnabod pawb a mae wastad sgwrs yn cael ei gynnal sydd yn creu cymaint o agosatrwydd a teimlad cynnes yn yr ysgol.

Mae astudio yn y chweched dosbarth wedi fy annog i feddwl am fy nyfodol a braint yw cynrychioli y chweched dosbarth fel prif ddisgybl eleni. Yn ystod fy ngyfnod yma, rwyf wedi elwa ar gyflaeoedd niferus i ddatblygu fy sgiliau academaidd a phersonol megis Eisteddfodau, Sioeau Cerdd, Profiad Gwaith, ffeiriau prifysgol, gweithdai efo’r BBC a Coleg Cymraeg a cymaint mwy. Mae’r ysgol yn tu hwnt o gefnogol a wastad yn ceisio eu gorau glas i gefnogi ni fel disgyblion ym mhob agwedd ac mae hynny yn rhywbeth y gwnaf wastad ddiolch amdano.



# Gair gan y Prif Swyddogion

**Cai Williams - Prif Swyddog 2025 - 2026**

Ers dychwelyd i Ysgol Dyffryn Conwy, rwyf wedi cael profiadau bythgofiadwy a chyfleoedd unigryw. Mae’r staff wedi fy ngwthio o ran fy ngallu academaidd, ac o ganlyniad rwyf wedi datblygu sgiliau defnyddiol a datblygu fy hun fel person. Mae’r staff yn hynod o awyddus i fy addysgu ac eisio i mi lwyddo yn yr aseiniadau a’r arholiadau.

Ers bod yn y 6ed dosbarth, rwyf wedi dysgu'r math o yrfa y byddwn yn mwynhau ei wneud yn y dyfodol, yn ogystal â’r math o berson rwyf eisiau bod. Yr wyf wedi cael cyfleon drwy fynychu y ffair UCAS, diwrnod agored cyffredinol ym mhrifysgol Bangor a derbyn cyflwyniadau gan nifer o fobl sydd wedi dychwelyd i’r ysgol er mwyn ein cynorthwyo (sy’n ganlyniad o waith caled staff yr Ysgol i gysylltu â’r bobl).

Yr wyf wedi dod yn fwy annibynnol wrth baratoi am arholiadau oherwydd mae natur a bywyd y 6ed dosbarth yn annog hyn, ond hefyd rwyf wedi gwneud ffrindiau newydd ac wedi creu atgofion anhygoel hefo fy nghyd-ddisgyblion yng Nghanolfan y Chweched. Mae gan myfyrwyr y dewis i astudio nifer eang o bynciau yn yr ysgol ac hefyd posib mynychu cwrs LINC ar safleoedd eraill yn sir Conwy.



# Gair gan ddisgyblion eraill…

**Mae Erin ac Efan yn ddisgyblion sydd wedi symud yma i Ysgol Dyffryn Conwy yn dilyn derbyn eu haddysg yn flaenorol mewn Ysgol arall. Yr ydym yn croesawu ceisiadau gan ddisgyblion o ysgolion eraill yn yr ardal.**

Erin Lloyd

Ymunais gyda Chweched Dosbarth yn Ysgol Dyffryn Conwy ar ôl gorffen fy nghyrsiau TGAU yn Ysgol Ardudwy. Roedd symud i ysgol hollol newydd yn brofiad ofnus, ond roedd yr athrawon a'r disgyblion yn hynod o groesawgar ac felly roeddwn wedi setlo mewn dim. Fe wnaeth yr ysgol drefnu nifer o weithgareddau cymdeithasu ar ein cyfer, ac o ganlyniad rydym yn flwyddyn agos a rwyf wedi gwneud llawer o ffrindiau newydd.

Mae dod yma i'r chweched wedi fy ngalluogi i i astudio'r pynicau rwy'n wir fwynhau, ac wedi fy nghyflwyno i nifer o gyfleoedd allgyrsiol hefyd. Cefais lawer o gefnogaeth gan y staff gyda fy nghais prifysgol, yn ogystal â chymorth i benderfynu beth i'w wneud fel gyrfa. Oherwydd hyn, rwy'n hynod o falch o fy mhenderfyniad i ymuno â'r ysgol.

Efan Anwyl

Ar ôl gorffen blwyddyn 11 yn Ysgol Ardudwy fe wnes i symud i Ysgol Ddyffryn Conwy i ddechrau ar gyrsiau Lefel A. Roedd y syniad symud i ardal newydd yn syniad roeddwn heb feddwl amdano a doeddwn ddim yn siŵr sut y bysa y profiad, os byswn yn setlo neu ddim. Ond gyda help staff a ffrindiau newydd o'r ysgol fel roedd hi yn broses hawdd. Roedd pawb yn groesawgar wrth i mi ymuno gyda'r ysgol ac ers y diwrnod cyntaf yr wyf i wedi gwneud nifer o ffrindiau newydd.

Yr wyf wedi cael profiadau gwych o ran gweithgareddau yn yr ysgol a thu allan. Rwyf yn hapus iawn o'r cyfle rydw i wedi cael yn yr ysgol yma, mae wedi caniatáu i mi astudio pynciau yr oeddwn yn dymuno. Un o'r profiadau gorau oedd chwarae Pêl-droed gyda'r ysgol ac efo fy ffrindiau.



# Eich cyfrifoldeb personol

**Fel <u>aelod o Chweched Dosbarth Ysgol Dyffryn Conwy</u> byddwch yn:**

- Mynychu gwersi yn brydlon gan gynnwys sesiynau cyfoethogi, cyfnodau cofrestru, a gwasanaethau.
- **Ble'n bosibl**, yn gwneud apwyntiadau meddygol a threfnu gwersi gyrru tu allan i ddiwrnod ysgol. Os yn anochel, sicrhau fod yr ysgol yn cael ei hysbysu.
- Arwyddo mewn neu allan wrth y dderbynfa pan yn cyrraedd/gadael safle'r ysgol os wedi derbyn caniatad yn ystod y dydd.
- Gwisgo'r wisg ysgol gan ddilyn polisi'r ysgol.

**I sicrhau <u>llwyddiant academaidd</u> yn y Chweched Dosbarth, byddwch yn :**

- Sicrhau fod pob aseiniad, darn o waith cwrs neu waith cartref wedi ei roi mewn yn unol â gofynion/dyddiad cyflwyno'r athro ac wedi'i gwblhau i'r gorau o'ch gallu.
- Gweithio'n galed tuag at cyrraedd neu rhagori yn y targedau osodir.
- Gofyn am help gan staff er mwyn sicrhau fod cymorth yn cael ei roi er mwyn datblygu.
- Rhoi gwybod i fy staff os oes unrhyw amgylchiadau allai amharu ar fy nysgu.
- Cwblhau gwaith a gollwyd yn dilyn absenoldeb gan wneud defnydd o Google Classroom.
- Cadw trefn ar fy ffolderi ar gyfer pob pwnc.
- Cynllunio a rheoli dyddiadau cyflwyno ac adolygu yn barhaus a sicrhau fy mod yn defnyddio fy amser astudio yn effeithiol pob amser.
- Anelu i gwblhau 15-20 awr o waith/adolygu tu allan i'r gwersi pob wythnos
- Bod yn **synhwyrol** gyda gwaith/cyflogaeth rhan amser. Sicrhau eich bod yn cael cyd-bwysedd gan sicrhau nad yw'n cael effaith ar eich cynnydd academiadd a'ch gallu i ymdopi gyda gofynion a phwysau'r Chweched Dosbarth. (Yn **seiliedig ar ymchwil**, cynghorir i fyfyrwyr Blwyddyn 12 i beidio a chymryd mwy na 15 awr o waith rhan amser cyflogedig yr wythnos, a Blwyddyn 13 dim mwy na 10 awr yr wythnos.)
- Cymryd mantais llawn o unrhyw gyfleoedd ar gyfer astudio pellach, arweinyddiaeth a gwirfoddoli.
- Sicrhau fod adnoddau TGCh yn cael ei defnyddio i bwrpas dysgu a chefnogi dysgu yn unig a chymryd cyfrifoldeb llawn o liniaduron a dyfeisiau personol eraill.
- Gwirio ebyst yn rheolaidd i dderbyn negeseuon pwysig gan staff ac ar gyfer cyfleoedd gyrfa allai godi.



# Disgwyliadau o Fyfyrwyr 6ed Dosbarth

**Datblygu'r Person Cyflawn/Dinesydd Ifanc**

Mae eich cymwysterau yn bwysig ond mae eich natur, eich personoliaeth a'ch hapusrwydd yr un mor bwysig. Ystyriwch, er enghraifft, y profiad o ymgeisio am swydd neu am le mewn Prifysgol. Bydd y sawl sydd yn cyfweld yn dod ar draws llawer gyda chymwysterau tebyg i'w gilydd ond bydd yn dewis y person sydd â'r bersonoliaeth fwyaf addas a'r profiadau mwyaf perthnasol. Rhaid i chi ddangos hefyd eich bod yn medru cydweithio fel aelod o dîm, cymryd cyfrifoldeb, ac ymddwyn mewn modd dibynadwy ac annibynnol. Gobeithir y gall pob myfyriwr ddatblygu'r sgiliau hyn yn ystod ei amser yn y Chweched Dosbarth.

**Cyfrifoldeb yn y Chweched**

Dewis yr unigolyn yw dychwelyd i'r 6ed Ddosbarth.

Teg felly yw rhoi rhywfaint o arweiniad yngln â chyfrifoldebau bywyd yn y Chweched er mwyn i'r myfyriwr fedru penderfynu a fydd yn barod i'w derbyn, cyn arwyddo cytundeb dychwelyd i'r Chweched. Anelir at roi cyfle i bob aelod o'r Chweched ddatblygu hyd eithaf ei allu, yn academaidd, yn allgyrsiol ac yn gymdeithasol a hynny o fewn awyrgylch Cymreig. Anelir, hefyd, at roi cymaint o ryddid barn a rhyddid ymddygiad sy'n gymesur â chyfrifoldebau tuag at gyfoedion, disgyblion iau, athrawon a phob aelod o gymuned yr ysgol.

Yn gyffredinol, felly, mae dau prif bwynt:

- Ymddwyn mewn ffordd sy'n deilwng o statws arbennig aelodaeth o'r Chweched Dosbarth.
- Ymroddiad i bob agwedd o addysg, a bod yn barod i dderbyn arweiniad ynglŷn â sefydlu patrwm cytbwys o waith ac o hamdden.



# Eich cyfrifoldeb i'r Ysgol

**Disgwylir i chi weithio'n galed, ond mae pob cymorth a chefnogaeth ar gael gan gynnwys cefnogaeth eich Pennaeth 6ed Dosbarth, Tiwtoriaid 6ed Dosbarth, Mentor 6ed dosbarth.**

**Fel rhan o <u>gymuned Chweched Dosbarth</u> Ysgol Dyffryn Conwy a'r <u>gymuned enhangach</u> byddwch yn :**

- Cymryd rhan llawn yng nghymuned Chweched Dosbarth ac enhagach yr ysgol gan fod yn Rôl Fodel i eraill o fewn yr ysgol a bod yn bresennol a chwblhau dyletswyddau e.e; Nosweithiau Agored, Diwrnod Pontio Bl 6.
- Sicrhau nad wyf yn parcio ar dir yr ysgol ac fy mod yn dilyn y gofynion perthnasol sydd wedi'i amlinellu yn y ddogfen Rheolau Gyrru a Parcio sydd angen ei llenwi a'i chwblhau os y dymunaf ddod a car i'r ysgol.
- Cadw'r defnydd o ffonau symudol/ technoleg ddigidol a chlustffonau i ganolfan y Chweched Dosbarth yn unig.
- Trîn adnoddau ac adeilad Canolfan y Chweched Dosbarth gyda parch. Mae hyn yn cynnwys clirio 'sbwriel, cwpannau a phlatiau gan ei dychwelyd i'r ffreutur, gan sicrhau fod y sinc a'r ardaloedd o'u cwmpas yn glir ar ddiwrnod pob dydd i alluogi staff glanhau Sodexo i lanhau yn briodol.
- Dim yfed na bwyta yn yr ardaloedd gweithio/astudio tawel.
- Sicrhau fod yr ardal weithio/astudio a'r cyfrifiaduron yn cael ei adael fel a'i ddargnafyddwyd. Os byddaf yn gweld unrhyw broblem, byddaf yn rhoi gwybod i Annogwr Dysgu CA5 yn syth - Mrs Iona Owen
- Dim ysmygu/'Vapio' ar dir yr ysgol.



# Dyddiadau pwysig

| **DYDDIAD** / DATE | **Proses Dewisiadau** / Option Process 2025 - 2026 |
|---|---|
| **20/1/26** | **Noson Agored/ Open Evening** |
| **20/1/26** | Dewis Rhydd 1 yn agor ar Google Forms 1st Free Choice opens |
| **12/2/26** | **Diwrnod Agored LINC Conwy / LINC Conwy Open Day** |
| **30/1/26** | Dewis Rhydd 1 yn cau ar Google Forms 1st Free Choice closes |
| **12/2/26** | **Diwrnod Ffug-gyfweliadau / Mock Interview Day** |
| **11/3/26** | **Noson Rieni Tiwtor/ Tutor Parents Evening** |
| **11/2/26** | Colofnau yn agor ar Google Forms/ Coloumns opens on Google Forms |
| **4/3/26** | Dewisiadau Terfynol yn cau ar Google Forms/ Final Options close on Google Forms |
| **25/6/26** | **Diwrnod Blasu'r Chweched Dosbarth / Sixth Form Taster Day** |

# Cyrsiau LINC

Cynigir cyrsiau Linc Conwy trwy gydweithrediad holl ysgolion uwchradd Conwy a Choleg Llandrillo. Addysgir pob cwrs Linc ar ddyddiau Mercher (darperir trafnidiaeth) dim ond un cwrs gellir dewis. Oni nodir yn wahanol, bydd y pynciau BTEC yn rhai Lefel 3, sydd gyfwerth â cymhwyster Safon Uwch. Darperir manylion llawn y cyrsiau hyn yn llawlyfr Linc Conwy, sydd ar gael o'r ysgol i unrhyw sydd â diddordeb.

# Gofynion academaidd

- 5 neu fwy o raddau TGAU A* - C. / gradd Teilyngdod neu uwch Lefel 2
- Isafswm o radd C TGAU mewn unrhyw bwnc y bwriedir eu hastudio at safon Uwch Gyfrannol. Isafswm o gradd B ar gyfer pynciau Gwyddoniaeth a Mathemateg.

Disgwylir i fyfyrwyr Blwyddyn 12 astudio 3 neu 4 pwnc hyd at Safon Uwch Gyfrannol. Yn dilyn y broses o wneud dewisiadau mae posibilrwydd na fydd yr ysgol yn gallu rhedeg pob cwrs os na fydd niferoedd digonol yn dewis y pwnc.

Yn ychwanegol at yr arholiadau Uwch Gyfrannol a Safon Uwch, cofrestrir pob myfyriwr ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Bydd yr ysgol yn cynnig cyfle i ddisgyblion ail-sefyll rhai pynciau TGAU.

Gellir ymgeisio am Lwfans Cynhaliaeth Addysg i'ch helpu gyda'ch hastudiaethau.

# Bagloriaeth Cymru Uwch

**Beth yw Cymhwyster Bagloriaeth Cymru?**

Cymhwyster Lefel 3 newydd cyffrous yw'r cymhwyster Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch (BSC Uwch) sy'n cefnogi myfyrwyr i ddod yn ddinasyddion effeithiol, cyfrifol a gweithgar, gan sicrhau bod y sgiliau ganddyn nhw ar gyfer astudiaeth yn y dyfodol neu i fynd i mewn i'r farchnad swyddi. Dyluniwyd y cymhwyster hwn yn bennaf ar gyfer myfyrwyr 16-19 oed, a gellir ei sefyll ochr yn ochr â chymwysterau lefel 3 eraill, gan gynnwys Safon Uwch.

**BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?**

Mae ein cwrs dwy flynedd yn cynnwys 3 phroject: Project Cymuned Byd-eang, Project Cyrchfan y Dyfodol, a Phroject Unigol. Byddwch yn datblygu ac yn cymhwyso'r 4 sgìl Cyfannol ac yn cael cyfleoedd i ddatblygu'r 3 sgìl Mewnblanedig. Bydd myfyrwyr yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau a chyddestunau cyffrous a fydd yn seiliedig ar agenda datblygiad cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a Nodau Llesiant Cymru yn ôl diffiniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

**SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU?**

Byddwch yn cwblhau 3 phroject:

**Project Cymuned Fyd-eang** (25%) Byddwch yn dewis mater byd-eang i ymchwilio iddo, yn rhannu eich gwybodaeth ag eraill ac yn gweithredu yn y gymuned.

**Project Cyrchfannau'r Dyfodol** (25%) Byddwch yn dod i ddeall chi eich hun, yn archwilio nodau o ran cyflogaeth a llesiant yn y dyfodol, ac yn cynllunio sut gallwch gyflawni hyn.

**Project Unigol** (50%) Byddwch yn cynllunio, yn rheoli ac yn ymchwilio i destun sy'n gysylltiedig â'ch dyheadau addysg neu yrfa yn y dyfodol, ac yn creu traethawd hir ysgrifenedig neu arteffact. Gellir sefyll asesiadau drwy gydol y cwrs dwy flynedd gyda chymedroli allanol ym mis Ionawr a mis Mai. Rydych yn debygol o gwblhau'r Project Unigol yn yr ail flwyddyn.


**Am wybodaeth pellach cysylltwch â: Mr Jonathan Kerry**

# Pynciau

## Uwch Gyfrannol / Uwch / Btec


- Chwaraeon 16
- Busnes 17
- Bioleg 18
- Celf a Dylunio 19
- Cemeg 20
- Cerddoriaeth 21
- Cymraeg 22
- Daearyddiaeth 23
- Drama ac Astudiaethau Theatr 24
- Dylunio a Thechnoleg – Dylunio Cynnyrch 25
- Ffiseg 26
- Hanes 27
- Mathemateg 28
- Cymdeithaseg 29
- Seicoleg 30
- Saesneg 31

- Ail Eistedd TGAU 32



# Chwaraeon

# Btec Lefel 3

## Strwythur y cymhwyster

Cywerth mewn maint i un Lefel A
4 uned – 3 yn hanfodol, a 2 yn cael eu hasesu yn allanol.
Cynnwys hanfodol (83%).
Asesiad allanol (67%).

## Asesiad

Mae'r asesiad wedi'i gynllunio'n benodol i gyd-fynd a phwrpas ac amcan y cymhwyster. Mae'n cynnwys ystod o fathau ac arddulliau asesu sy'n addas ar gyfer cymwysterau galwedigaethol. Mae tri phrif fath o asesiad: allanol, mewnol a synoptig.

## Unedau a asesir yn allanol

Yr arddulliau asesu allanol a ddefnyddir ar gyfer cymwysterau yn yr ystafell chwaraeon yw:

- arholiadau – mae pob dysgwr yn cymryd yr un asesiad ar yr un pryd, fel arfer gyda chanlyniad ysgrifenedig
- tasgau gosod- dysgwyr yn cymryd yr asesiad yn ystod ffenestr ddiffiniedig ac yn dangos dealltwriaeth trwy gwblhau tasg alwedigaethol.

## Unedau a asesir yn fewnol

Bydd dysgwyr yn cael y cyfle i:

- ysgrifennu canfyddiadau eu hastudiaethau achos eu hunain
- i ymchwilio i archwilio sefyllfaoedd cymhleth neu anghyfarwydd
- i gynnal prosiectau y mae ganddynt ddewis dros y cyfeiriad a chanlyniadau
- dangos sgiliau ymarferol a thechnegol.

## Asesiad synoptig

Mae asesiad synoptig yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddangos eu bod yn gallu adnabod a defnyddio'n effeithiol, mewn modd integredig, detholiad priodol o sgiliau, technegau cysyniadau, damcaniaethau a gwybodaeth o bob rhan o'r sector fel sy'n berthnasol i dasg allweddol.

## Graddio ar gyfer unedau a chymwysterau

Mae cyflawniad yn y cymhwyster yn gofyn am arddangosiad o ddyfnder astudio ym mhob uned, sicrhau caffael ystod o sgiliau ymarferol sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth neu ddilyniant i addysg uwch, a datblygu sgiliau trosglwyddadwy yn llwyddiannus. Bydd dysgwyr sy'n ennill cymhwyster wedi cyflawni ar draws unedau gorfodol, gan gynnwys asesiad allanol a synoptig. Asesir unedau gan ddefnyddio graddfa graddio Rhagoriaeth, Teilyngdod, Pasio a Di-ddosbarth.

## Am wybodaeth pellach cysylltwch â: Mr Ricky Jones

# Busnes

## BTEC Lefel 3

### Crynodeb o'r cwrs

Mae Tystysgrif BTEC Genedlaethol Lefel 3 mewn Busnes yn gymhwyster Cyffredinol Cymhwysol. Mae'n benodol ar gyfer dysgwyr ôl-16 sydd am barhau â'u haddysg trwy ddysgu cymhwysol, ac sy'n anelu at symud ymlaen i addysg uwch, ac i gyflogaeth yn y sector busnes ar ei ddiwedd.

Mae cynnwys y cymhwyster hwn wedi'i ddatblygu mewn ymgynghoriad ag academyddion i sicrhau ei fod yn cefnogi dilyniant i addysg uwch. Mae cyflogwyr a chyrff proffesiynol hefyd wedi bod ynghlwm â'r ymgynghoriad i gadarnhau bod y cynnwys yn briodol ac yn gyson gyda'r ymarfer cyfredol ar gyfer dysgwyr sy'n bwriadu mynd i gyflogaeth yn uniongyrchol yn y sector fusnes. Bydd dysgwyr sy'n cymryd y cymhwyster hwn yn astudio unedau gorfodol, sy'n ffurfio 100% o'r rhaglen ddysgu sy'n cwmpasu'r meysydd cynnwys canlynol:

- amgylcheddau busnes
- marchnata a chyllidebu.

### Sut fyddaf i'n cael fy asesu?

Dyma'r arddulliau asesu allanol a ddefnyddir ar gyfer y Cymhwyster Busnes:

- arholiadau - mae'r holl ddysgwyr yn cymryd yr un asesiad ar yr un pryd, fel arfer gyda chanlyniad ysgrifenedig
- gosod tasgau - mae dysgwyr yn cymryd yr asesiad yn ystod ffenestr diffiniedig ac yn dangos dealltwriaeth trwy gwblhau tasg alwedigaethol. Mae rhai asesiadau allanol yn cynnwys cyfnod o baratoi gan ddefnyddio gwybodaeth benodol. Mae asesiadau allanol ar gael ddwywaith y flwyddyn.

Mae'r asesiad wedi'i gynllunio'n benodol i gyd-fynd â phwrpas ac amcan y cymhwyster. Mae'n cynnwys ystod o fathau ac arddulliau asesu sy'n addas i gymwysterau galwedigaethol yn y sector. Mae yna tri phrif fath o asesiad y mae angen i chi fod yn ymwybodol ohonynt: allanol, mewnol a synoptig.

Mae'r rhan fwyaf o unedau yn cael eu hasesu'n fewnol ac yn amodol ar ddilysu safonau allanol. Mae hyn yn golygu eich bod yn gosod ac yn asesu'r aseiniadau fydd yn rhoi'r asesiad crynodol terfynol o bob uned, gan ddefnyddio'r enghreifftiau a'r gefnogaeth a ddarperir gan Pearson. Mae asesu synoptig yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddangos eu bod yn gallu adnabod a defnyddio'n effeithiol ac mewn ffordd integredig, detholiad priodol o sgiliau, technegau, cysyniadau, damcaniaethau a gwybodaeth o bob rhan o'r sector fel sy'n berthnasol i dasg allweddol. Mae pob asesiad allanol ar gyfer BTEC Cenedlaethol yn gysylltiedig ag uned benodol. Datblygwyd yr holl unedau ar gyfer asesiad allanol yn 90 neu 120 awr o ddysgu dan arweiniad er mwyn galluogi dysgwyr i ddangos ehangder a dyfnder o gyflawniad. Gwneir pob asesiad dan amodau penodedig, yna byddant yn cael eu marcio gan Pearson a dyfernir gradd. Caniateir i ddysgwyr ailsefyll asesiadau allanol yn ystod eu rhaglen.

### Llwybrau Dilyniant

Gall dysgwyr sydd wedi cwblhau'r cymhwyster hwn symud ymlaen i ddysgu pellach ar Lefel 3, er enghraifft, BTEC Cenedlaethol uwch yn y sector busnes. Mae'r cymhwyster yn cario pwyntiau UCAS ac mae'n cael ei gydnabod gan ddarparwyr addysg uwch fel cymhwyster sydd yn bodloni gofynion derbyn i lawer o gyrsiau perthnasol, os yw'n cael ei ystyried ochr yn ochr â chymwysterau Lefel 3 eraill fel rhan o'r rhaglen ddysgu. Yn dibynnu ar y cymwysterau eraill y mae dysgwyr wedi'u cymryd, gallant symud ymlaen i raglen radd o ystod o raglenni yn y sector busnes. Gall dilyniant fod yn uniongyrchol i radd anrhydedd neu i radd Safon Uwch Genedlaethol, Gradd Sylfaenol, neu Uwch.

**Am wybodaeth pellach cysylltwch â: Mrs Melanie Gunderson**

# Bioleg

# Uwch Gyfrannol / Uwch

## Crynodeb o'r cwrs

Mae Bioleg yn cynnwys astudiaeth o ystod eang o bynciau cyffrous, yn amrywio o fioleg foleciwlaidd i'r astudiaeth o ecosystemau, ac o ficro organebau i famolion. Mae'r genom dynol wedi ei osod mewn trefn, a gwyddom sut mae ein DNA wedi cael ei drefnu i 3000 miliwn sail. Mae dros filiwn o bobl yn marw yn flynyddol o falaria ac yn Ne Ddwyrain Asia mae'r awyr yn dywyll o fwg, oherwydd i'r coedwigoedd glaw olaf yn Bornea gael eu llosgi i'r ddaear. Mae materion fel hyn o gonsyrn i Fiolegwyr. Dylai fod gennych o leiaf radd B dda mewn TGAU Gwyddoniaeth a B yn Haen Uwch Mathemateg, er mwyn ymdopi gyda'r lefel o ddealltwriaeth sydd ei angen. Bydd angen sgiliau cyfathrebu, dadansoddi a dealltwriaeth dda arnoch. Bydd angen diddordeb yn y byd naturiol arnoch, a dylech fod wedi mwynhau'r cwrs yn y gorffennol.

## Sut fyddaf i'n cael fy asesu?

**UG Uned 1: Biocemeg Sylfaenol a Threfniadaeth Celloedd**
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud, 20% o'r cymhwyster
Amrywiaeth o gwestiynau strwythuredig byr a hirach ac un ateb estynedig.

**UG Uned 2: Bioamrywiaeth a Ffisioleg Systemau'r Corff**
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud, 20% o'r cymhwyster
Amrywiaeth o gwestiynau strwythuredig byr a hirach ac un ateb estynedig.

**U2 Uned 3: Egni, Homeostasis a'r Amgylchedd**
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr, 25% o'r cymhwyster
Amrywiaeth o gwestiynau strwythuredig byr a hirach ac un ateb estynedig.

**U2 Uned 4: Amrywiad, Etifeddiad ac Opsiynau**
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr, 25% o'r cymhwyster
Adran A: Amrywiaeth o gwestiynau strwythuredig byr a hirach ac un ateb estynedig.
Adran B: Imiwnoleg a Chlefydau, Anatomi Cynhyrysgerbydol Dynol neu Niwrobioleg ac Ymddygiad

**U2 Uned 5**
Arholiad ymarferol,10% o'r cymhwyster
Mae dwy dasg yn yr uned hon:

- Tasg Arbrofi
- Tasg Dadansoddi Ymarferol

## Llwybrau Dilyniant

Mae Bioleg ymysg y pynciau mwyaf poblogaidd yn y wlad. Mae nifer yn parhau i'w astudio hyd at lefel gradd. Mae eraill yn mynd ymlaen i raddau yn y gyfraith, cyfrifiadureg, cyfrifeg, meddygaeth, nyrsio, dysgu a chyrsiau yn gysylltiedig â chwaraeon. Felly pa bynnag faes y byddwch yn gweithio ynddo maes o law, byddwch yn gweld Bioleg yn gwrs sydd yn cynnig boddhad a sialens, ac yn datblygu llawer o'r sgiliau sydd yn angenrheidiol ar gyfer gyrfa lwyddiannus.

## Am wybodaeth pellach cysylltwch â: Mrs Glesni Rogers Jones

# Celf a Dylunio

# Uwch Gyfrannol / Uwch

## Crynodeb o'r cwrs

Mae'r manylebau Uwch Gyfrannol a'r rhai Safon Uwch yn gofyn i'r ymgeiswyr adeiladu ar y sgiliau, gwybodaeth, a dealltwriaeth o gelf, crefft a chynllun a ddatblygwyd yn y cwrs Celf TGAU. Disgwylir i fyfyrwyr gael gradd B neu uwch yn yr arholiad TGAU cyn ymuno a'r cwrs U.G. Cyflwynir y myfyrwyr i ystod eang o dechnegau a phrosesau mewn cyfnod anwytho ar ddechrau'r cwrs, ac yna anogir hwynt i ddatblygu gwaith o fannau cychwyn personol.

## Sut fyddaf i'n cael fy asesu?

| **Manyleb UG** | **Cydran** | **Pwysiad UG** | **Asesiad** | **Pwysiad Safon Uwch** |
|---|---|---|---|---|
| **ART1** | **Portffolio gwaith cwrs**<br>Dangos gwahanol brosesau wedi'i datblygu o fannau cychwyn personol | 100% | Asesu'n fewnol, safoni'n allanol | 40% |
| **Manyleb** | **Cydran** | **Pwysiad** | **Asesiad** | **Pwysiad** |
| **Safon Uwch** | | **Safon Uwch** | | **Safon Uwch** |
| ART2 | **Ymchwiliad Personol**<br>Uned gwaith cwrs wedi'i selio ar themâu a chynnwys a ddatblygir o fannau cychwyn personol<br>Rhaid i'r ymgeiswyr gyfleu eu dealltwriaeth trwy gyfrwng delweddau a thestunau integredig sy'n cynnwys elfen ysgrifenedig o ddim llai na mil o eiriau.<br>Rhaid cyflwyno elfen estynedig o leiafswm o 1000 gair. | 60%<br>(120) | Asesu'n fewnol, safoni'n allanol | 40% |
| ART3 | **Asesiad dan oruchwyliaeth**<br>• Aseiniad wedi'i osod yn allanol yn dangos bwriadau personol yn ystod cyfnod parhaus o astudiaeth ddwys a phrawf dan oruchwyliaeth **deuddeg awr** wedi'i oruchwylio a'i amseru | 40%<br>(80) | Asesu'n fewnol, safoni'n allanol | 20% |
| Cyfanswm | | 100%<br>(200) | | 60% |

**Am wybodaeth pellach cysylltwch â: Mrs Nia Davies**

# Cemeg

# Uwch Gyfrannol / Uwch

## Crynodeb o'r cwrs

Mae pob busnes a thechnoleg yn dibynnu i raddau ar Gemeg. Cemeg yw sylfaen cadwraeth, ac y mae'n bwnc hollbwysig ym myd iechyd. Prin fod yna unrhyw weithgarwch nad yw cemegwyr yn cyfrannu ato, rhywfodd neu'i gilydd. Ac y mae rhifedd, meddylfryd rhesymegol a sgiliau datrys problemau, sydd yn angenrheidiol er mwyn astudio Cemeg, hefyd yn nodweddion pwysig mewn llawer proffesiwn anwyddonol. Mae'r pwnc yn angenrheidiol ar gyfer gyrfaoedd mewn meddygaeth, milfeddygaeth a fferylliaeth a gall gynnig gyrfa mewn diwydiannau megis olew, fferylliaeth, electroneg a bwyd; ac y mae'n berthnasol hefyd i fancio, y gyfraith, gwleidyddiaeth, adwerthu a chyfrifiadureg. Nid yn unig y mae Cemeg yn cynyddu ein dealltwriaeth o'n hamgylchfyd: y mae hefyd yn agoriad economaidd i'r byd. Dylai myfyrwyr fod wedi mwynhau Cemeg yn y gorffennol, ac wedi llwyddo ym mhob adran o'r cwrs. Dylent fod wedi ymddiddori mewn theori, a materion megis bondiau cemegol a hafaliadau.

## Sut fyddaf i'n cael fy asesu?

**UG Uned 1**
The Language of Chemistry, Structure of Matter and Simple Reactions
Written examination: 1 hour 30 minutes, 20% of qualification
A range of short answer, structured and extended response questions.

**UG Uned 2**
Energy, Rate and Chemistry of Carbon Compounds
Written examination: 1 hour 30 minutes, 20% of qualification
A range of short answer, structured and extended response questions.

**A2 Unit 3**
Physical and Inorganic Chemistry
Written examination: 1 hour 45 minutes, 25% of qualification
A range of short answer, structured and extended response questions.

**A2 Unit 4**
Organic Chemistry and Analysis
Written examination: 1 hour 45 minutes
25% of qualification
A range of short answer, structured and extended response questions.

**A2 Unit 5**
Practical, 10% of qualification
This unit comprises two tasks:

- Experimental Task
- Practical Methods and Analysis Task

## Am wybodaeth pellach cysylltwch â: Miss Hannah Jones

# Cerddoriaeth

## Uwch Gyfrannol / Uwch

### Sut fyddaf i'n cael fy asesu?

**UG Uned 1: Perfformio**
Cyfanswm hyd y cyfansoddiadau: 6-8 munud, 12% o'r cymhwyster
Asesiad di-arholiad: asesir yn allanol gan arholwr ymweld
Perfformiad yn cynnwys o leiaf ddau ddarn naill ai fel unawdydd neu fel rhan o ensemble neu gyfuniad o'r ddau.

**UG Uned 2: Cyfansoddi**
Cyfanswm hyd y cyfansoddiadau: 3-6 munud, 12% o'r cymhwyster
Asesiad di-arholiad: asesir yn allanol gan CBAC
DAU gyfansoddiad:

1. Un darn sydd o leiaf 1 munud o hyd sy'n defnyddio'r technegau sy'n gysylltiedig â Thraddodiad Clasurol y Gorllewin ac yn ymateb i friff a osodir gan CBAC. Bydd dewis o bedwar briff gosod gan y dysgwyr. Bydd y briffiau yn cael eu rhyddhau yn ystod wythnos gyntaf mis Medi.
2. Cyfansoddiad rhydd sydd o leiaf 2 funud o hyd. (8% o'r cymhwyster)

**UG Uned 3: Gwerthuso**
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud, 16% o'r cymhwyster
Dau faes astudio: Maes astudio A: Traddodiad Clasurol y GorllewinY Symffoni 1760-1830 yn cynnwys un gwaith gosod neu Cerddoriaeth Gorawl 1730-1800 yn cynnwys un gwaith gosod.
Maes astudio B: Roc a Phop 1965-1990
Maes astudio C: Theatr Gerdd, Rodgers, Schonberg, Lloyd Webber a Porter.
Maes astudio Ch: Jazz 1940 – 1965

**Uned 4: Perfformio**
Opsiwn A: Cyfanswm hyd y cyfansoddiadau: 10-12 munud, 22% o'r cymhwyster
Opsiwn B: Cyfanswm hyd y cyfansoddiadau: 6-8 munud, 14% o'r cymhwyster
Asesiad di-arholiad: asesir yn allanol gan arholwr ymweld
Opsiwn A: Perfformio (22%) neu Opsiwn B: (14%)

**Uned 5: Cyfansoddi**
Asesiad di-arholiad: asesir yn allanol gan CBAC
Cyfanswm hyd y cyfansoddiadau: 3-6 munud neu 5-9

**Uned 6: Gwerthuso**
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr, 24% o'r cymhwyster

### Am wybodaeth pellach cysylltwch â: Mrs Lowri Williams

# Cymraeg
# Uwch Gyfrannol / Uwch

## Crynodeb o'r cwrs

Mae'r manylebau newydd wedi eu llunio i annog myfyrwyr i ddangos diddordeb, pleser a brwdfrydedd wrth astudio'r Gymraeg. Manteisiwyd ar y cyfle i ddatblygu elfennau newydd cyffrous a pherthnasol tra'n dal gafael ar yr un pryd ar yr elfennau traddodiadol hynny sydd yn greiddiol i astudio'r Gymraeg ar y lefel hon.

## Sut fyddaf i'n cael fy asesu?

**Uwch Gyfrannol**

| UNED 1 | UNED 2 | UNED 3 |
|---|---|---|
| Arholiad Llafar<br><br>* Trafod Ffilm a Drama | Asesiad Mewnol – Gwaith Cwrs<br><br>* 2 dasg ysgrifenedig –<br><br>* 1 greadigol ac 1 feirniadol | Arholiad Ysgrifenedig<br><br>(2 awr)<br><br>* Defnyddio Iaith<br><br>* Barddoniaeth |
| 15% | 10% | 15% |

**Safon Uwch**

| UNED 4 | UNED 5 | UNED 6 |
|---|---|---|
| Arholiad Llafar Terfynol<br><br>* Trafod Nofel | Arholiad Ysgrifenedig<br><br>(2 awr)<br><br>* Chwedlau<br><br>* Hengerdd<br><br>* Cywyddau | Arholiad Ysgrifenedig Terfynol<br><br>(2 awr)<br><br>* Gwerthfawrogi Llenyddiaeth a'r Gymraeg mewn cyd-destun |
| 20% | 20% | 20% |

## Am wybodaeth pellach cysylltwch â: Mrs Gwenno Ifan

# Daearyddiaeth

# Uwch Gyfrannol / Uwch

## Crynodeb o'r cwrs

Mae'r fanyleb yn cydnabod y rhan hanfodol sydd i ddaearyddiaeth ym maes llafur yr 21**ain** ganrif. Mae'n hybu myfyrwyr i ddeall eu bywydau hwy eu hunain mewn sefyllfa fyd-eang ac i ddeall y materion hanfodol, cymhleth a rhyngberthynol y bydd yn rhaid iddynt eu hwynebu yn eu bywydau, materion megis mudo byd-eang, symudiadau byd-eang mewn pŵer economaidd a'r sialens i ddefnyddio adnodd cynaliadwy.

Mae'r fanyleb yn canolbwyntio ar y ddaear fel lle dynamig lle mae prosesau a newidiadau ffisegol, amgylcheddol a dynol yn rhyngweithio i gynhyrchu byd sy'n newid yn gyson ac y bydd y myfyrwyr yn mynd iddo yn fuan fel oedolion. Astudir cysyniadau a phrosesau pwysig yng nghyswllt lleoedd go iawn sy'n bodoli mewn cyswllt lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a byd-eang.

Mae'n galluogi myfyrwyr i ddod yn ddinasyddion cyfrifol, gwybodus a medrus; bydd deall rhai o ryngweithiadau gofodol cymhleth y byd modern yn fan cychwyn i'r myfyrwyr ddeall ymhellach a chwilio am wybodaeth o'r byd y trigant ynddo.

## Sut fyddaf i'n cael fy asesu?

**UG Uned 1: Tirweddau Newidiol**
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr, 24% o'r cymhwyster
Adran A: Tirweddau Newidiol
Adran B: Peryglon Tectonig

**UG Uned 2: Lleoedd Newidiol**
Arholiad ysgrifenedig, ymated i ddata: 1 awr 30 munud, 16% o'r cymhwyster
Adran A: Lleoedd Newidiol
Adran B: Ymchwiliad Gwaith Maes i Ddaearyddiaeth Ffisegol a Dynol

**U2: Uned 3: Systemau Byd-eang a Llywodraethiant Byd-eang**
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr, 24% o'r cymhwyster
Adran A: Systemau Byd-eang
Adran B: Llywodraethiant Byd-eang: Newid a Sialensiau
Adran C: Sialensiau'r 21ain Ganrif

**U2 Uned 4: Themâu Cyfoes mewn Daearyddiaeth**
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr, 16% o'r cymhwyster
Adran A: Peryglon Tectonig
Adran B: Themâu Cyfoes mewn Daearyddiaeth

**U2 Uned 5: Ymchwiliad Annibynnol Asesiad di-arholiad: 3000 – 4000 o eiriau**
20% o'r cymhwyster

## Am wybodaeth pellach cysylltwch â: Mr Robyn Cartwright

# Drama ac Astudiaethau'r Theatr

# Uwch Gyfrannol / Uwch

## Crynodeb o'r cwrs

Mae'r cwrs yn adeiladu ar wybodaeth a sgiliau a ddatblygwyd yn ystod y cwrs Drama TGAU, er nad yw'n ofynnol bod y dysgwr wedi ei ddilyn. Mae'r cwrs yn seiliedig ar ddealltwriaeth ymarferol o'r theatr. Mae'n datblygu gwybodaeth y myfyrwyr o hanes y theatr a'i athroniaeth drwy waith ymarferol. Yn ogystal ag actio mae hefyd yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o ochr dechnegol y theatr - gwaith goleuo, sain, set a chynllunio gwisgoedd.

## Sut fyddaf i'n cael fy asesu?

**UG Uned 1: Gweithdy Theatr**
Asesiad di-arholiad: asesu mewnol, safoni allanol, 24% o'r cymhwyster
Yn cydfynd â'r perfformiad mae darn o waith cwrs adroddiad proses a gwerthusiad o'r perfformiad terfynnol.

**UG Uned 2: Testun yn y Theatr**
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud, 16% o'r cymhwyster

**U2 Uned 3: Testun ar Waith (Perfformiad)**
Asesiad di-arholiad: asesir yn allanol gan arholwr ymweld, 36% o'r cymhwysterBydd dysgwyr yn ymwneud â chreu, datblygu a pherfformio dau ddarn o theatr.

1. Darn dyfeisiedig yn defnyddio technegau a dulliau gweithio naill ai ymarferwr theatr ddylanwadol neu gwmni theatr gydnabyddedig (ymarferwr neu gwmni gwahanol i'r un a ddewiswyd ar gyfer Uned 1)
2. Detholiad o destun cyhoeddiedig ag arddull gyferbyniol o ddewis y dysgwr.

Rhaid i ddysgwyr gyflwyno eu perfformiad yn fyw ar gyfer arholwr allanol.
Bydd y dysgwyr yn llunio adroddiad proses a gwerthuso o fewn un wythnos i gwblhau'r gwaith ymarferol.

**U2 Uned 4: Testun mewn Perfformiad**
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr, 24% o'r cymhwyster

**Am wybodaeth pellach cysylltwch â: Mr Tomos Williams**

# Dylunio a Thechnoleg
# Dylunio Cynnyrch
## Uwch Gyfrannol / Uwch

### Crynodeb o'r cwrs

Rwy'n dymuno datblygu fy sgiliau lluniadu a gweithio gydag amrywiaeth o gyfryngau graffigol.Rwy'n chwilio am gwrs diddorol sydd â llawer o gynnwys ymarferol. Rwy'n gobeithio dilyn gyrfa mewn Graffeg Cynnyrch, Dylunio Cynnyrch neu Ffasiwn, Dylunio Diwydiannol, Cyfrifiadurol neu Bensaernïol. Dylunio a datrys problemau syn seiliedig ar strwythur dyluniad proffesiynol. Datblygu sgiliau lluniadu a gweithio gydag amrywiaeth o gyfryngau graffigol. Cynllunio drwy gymorth cyfrifiadur a gweithgynhyrchu. Sgiliau gweithdy ymarferol a gwneud modelau gan ddefnyddio deunyddiau gwrthiannol. Mewnwelediad i dechnoleg a deunyddiau.

### Sut fyddaf i'n cael fy asesu?

**Uwch Gyfrannol:**

Uned 1 – Arholiad Ysgrifenedig 20% (2 awr)

- Egwyddorion technegol
- Egwyddorion dylunio a gwneud
- Ddadansoddi a gwerthuso penderfyniadau dylunio a materion ehangach mewn dylunio a thechnoleg

Uned 2 – Tasg Dynlunio a Gwneud 20% (tua 40 awr)

- Adnabod, ymchwilio ac amlinellu posibiliadau dylunio
- Dylunio a gwneud prototeipiau
- Dadansoddi a gwerthuso penderfyniadau dylunio a materion ehangach mewn dylunio a thechnoleg.

**Safon Uwch:**

Uned 3 –Arholiad Ysgrifenedig 30% (2 ½ awr)

- Egwyddorion technegol
- Egwyddorion dylunio a gwneud
- Ddadansoddi a gwerthuso penderfyniadau dylunio a materion ehangach mewn dylunio a thechnoleg.

Uned 4 – Tasg Dynlunio a Gwneud 30% (tua 60 awr)

- Adnabod, ymchwilio ac amlinellu posibiliadau dylunio
- Dylunio a gwneud prototeipiau
- Dadansoddi a gwerthuso penderfyniadau dylunio a materion ehangach mewn dylunio a thechnoleg.

### I ble all y cwrs hwn arwain?

- Dylunio cynnyrch 3D,
- Dylunio Diwydiannol,
- Pensaernïaeth.
- Creu Modelau,
- Dylunio Systemau,
- Dylunio Graffigol,
- Addysgu,
- Arddangosfeydd Dylunio Arddangosfeydd.
- Peirianneg – Mecanyddol, Adeileddol, Electronaidd,
- Dylunio a Gweithgynhyrchu Celfi,
- Cynhyrchu Dodrefn,
- Cynllunio Cartrefi.

**Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: Mrs Heledd Griffiths**

# Ffiseg

## Uwch Gyfrannol / Uwch

### Crynodeb o'r cwrs

Bydd yn bosibl i'r disgyblion astudio Ffiseg, Cemeg neu Fywydeg yn y Chweched Dosbarth wneud hynny wedi iddynt gwblhau'r ddau gwrs Gwyddoniaeth TGAU sef Gwyddoniaeth a Gwyddoniaeth Ychwanegol. Er mwyn iddynt allu ymdopi a'r cwrs bydd yn ofynnol iddynt fod wedi sicrhau gradd C neu uwch yn y ddau ond byddai gradd B yn fanteisiol. Yn ddelfrydol dylai fod y disgyblion wedi dilyn y cyrsiau Haen Uwch. Astudir nifer o agweddau gwahanol ar Ffiseg yn ystod y cwrs e.e. tonnau, mecaneg, trydan, ffiseg cwantwm, astro ffiseg, ffiseg niwclear a ffiseg feddygol/neu ddeunyddiau.

### Sut fyddaf i'n cael fy asesu?

**UG Uned 1: Motion, Energy and Matter**
Arholiad Ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
20% o'r cymhwyster

**UG Uned 2: Electricity and Light**
Arholiad Ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
20% o'r cymhwyster

**A2 Uned 3: Oscillations and Nuclei**
Arholiad Ysgrifenedig: 2 awr 15 munud

**A2 Uned 4:** Fields and Options
Arholiad Ysgrifenedig: 2 awr

**A2 Uned 5**
Arholiad Ymarferol
10% o'r cymhwyster

**Am wybodaeth pellach cysylltwch â: Mr Penri Jones**

# Hanes

## Uwch Gyfrannol / Uwch

### Crynodeb o'r cwrs

Oes gennych ddiddordeb mewn astudio pwnc sy'n ymwneud â phobl a digwyddiadau? Ydych chi'n mwynhau trafod syniadau? Ydi pwnc sy'n gofyn i chi gwestiynu a mynegi barn yn eich denu? Dyma fydd astudio Hanes yn ei gynnig i chi. Mi fyddwch yn gwneud gwaith par, gwaith grŵp a gwaith ymchwil annibynnol. Bydd gofyn i chi gyd-weithio gydag eraill er mwyn gyflwyno seminarau. Cewch eich annog i ddarllen a datblygu eich sgiliau gwneud nodiadau. Mi fyddwch yn astudio ffynonellau gwreiddiol ac eilaidd ac yn trafod eich syniadau a syniadau haneswyr yn y dosbarth.

### Sut fyddaf i'n cael fy asesu?

**Uned 1**
Oes Tuduriaid: Llywodraeth, Gwrthryfel a chymdeithas yng Nghymru a Lloegr c.1485-1603.

**Uned 2**
Yr Alemaen: O ddemocratiaeth I unbennaeth tua1918-1945 (Rhan 1).

**Uned 3**
Y Ganrif Americanaidd, 1890-1990

**Uned 4**
Yr Alemaen: O ddemocratiaeth I unbennaeth tua1918-1945 (Rhan 2).

**Uned 5**
Ymchwiliad hanesyddol (Gwaith cwrs), 3,000 i 4,000 o eiriau.

### Llwybrau Dilyniant

Mi fydd y sgiliau dadansoddi ac ymchwilio 'rydych chi'n datblygu wrth astudio Hanes yn berthnasol iawn ar gyfer amryw o gyrsiau prifysgol ac felly mae Hanes yn cael ei ystyried yn bwnc delfrydol gan y mwyafrif o adrannau a phynciau. Os ydych yn ystyried gyrfa yn y gyfraith, rheoli busnes, cyfrifeg, y gwasanaeth sifil, neu'r cyfryngau a newyddiaduraeth, Hanes ydi'r pwnc i chi. Wrth gwrs mai astudio Hanes hefyd yn angenrheidiol ar gyfer gyrfaoedd megis dysgu, gwaith amgueddfa ac archifai.

**Am wybodaeth pellach cysylltwch â: Mrs Beca Brychan**

# Mathemateg

## Uwch Gyfrannol / Uwch

**Crynodeb o'r cwrs**

Mae'r cymhwyster TAG UG a Safon Uwch CBAC hwn mewn Mathemateg yn darparu cwrs astudio eang, cydlynol, boddhaol a gwerth chweil. Mae'n annog dysgwyr i ddatblygu eu hyder mewn mathemateg, ac i fod ag agwedd gadarnhaol tuag at y pwnc ac i gydnabod pa mor bwysig ydyw yn eu bywydau bob dydd ac i'r gymdeithas.

## Sut fyddaf i'n cael fy asesu?

**UG Uned 1: Mathemateg Bur A**
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 30 munud, 25% o'r cymhwyster

**UG Uned 2: Mathemateg Gynhwysol A**
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 45 munud, 15% o'r cymhwyster
Adran A: Ystadegaeth
Adran B: Mecaneg

**U2 Uned 3: Mathemateg Bur B**
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 30 munud, 35% o'r cymhwyster

**U2 Uned 4: Mathemateg Gynhwysol B**
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 45 munud, 25% o'r cymhwyster
Adran A: Ystadegaeth
Adran B: Hafaliadau differol a Mecaneg

**Am wybodaeth pellach cysylltwch â: Mrs Buddug Eleri Jones**

# Cymdeithaseg

## Uwch Gyfrannol / Uwch

### Crynodeb o'r cwrs

Beth sy'n ein gwneud yr hyn ydym? A yw teledu, mewn gwirionedd, yn dylanwadu ar y ffordd yr ydym yn ymddwyn? Beth ddylid ei wneud â phobl sy'n troseddu? A oedd yna fwy o bobl dlawd ym Mhrydain yn y 1990au nag oedd yn 1890au? Beth yw'r rheswm bod cyn lleied o bobl yn meddu ar gymaint o gyfoeth y wlad? A oes gan haenau cymdeithas unrhyw arwyddocâd yn y cyfleoedd a ddaw i chi mewn bywyd? Pam y bydd merched yn cymryd swyddi gwahanol i rai dynion? A yw addysg yn hwyluso ynteu'n rhwystro llwyddiant? Pam y mae Prydain bellach efo Llywodraeth Lafur ar ôl ethol pedair Llywodraeth Geidwadol yn olynol? Mae'r cwestiynau hyn a rhai tebyg iddynt yn dreth ar ymennydd cymdeithasegwyr modern. Os ydych am ddysgu sut i'w hateb a derbyn yr her o wneud eich casgliadau eich hun, pam na feddyliwch am astudio cymdeithaseg? Byddwch yn gorfod dysgu'r gwahanol ffyrdd (theorïau) o edrych ar gymdeithasau a'r dulliau o wneud gwaith ymchwil ymarferol sy'n seiliedig ar y theorïau hynny. Bydd haenau cymdeithas yn cael eu hastudio drwy'r cwrs cyfan a byddant yn cael eu perthnasu'n fwy manwl i'r topigau neilltuol hyn: Y teulu a diwylliant, sgiliau ymchwilio cymdeithasegol, troseddau a gwyrduedd, addysg, anghyfartaleddau cyfoeth a thlodi. Hanfodol: Gradd C mewn Cymraeg + Saesneg ac o leiaf Gradd C mewn tri phwnc arall.

### Sut fyddaf i'n cael fy asesu?

**Uned 1: Caffael Diwylliant**
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 15 munud, 15% o'r cymhwyster Safon Uwch

**Uned 2: Deall Cymdeithas a Dulliau Ymchwilio Cymdeithasegol**
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr, 25% o'r cymhwyster Safon Uwch

**Uned 3: Grym a Rheolaeth**
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr, 25% o'r cymhwyster

**Uned 4: Anghydraddoldeb Cymdeithasol a Dulliau Cymhwysol o Ymchwilio Cymdeithasegol**
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 15 munud, 35% o'r cymhwyster

### Deunydd Darllen Defnyddiol

Allan Graham(ed) (1999) The Sociology of the FamilyA. Reader, Oxford: Blackwell
Trawler.P (1997) Investigating Education and Training, Collins 1995
Barratt David (1986) Media Sociology, London Tavistock
Beyoun.S (1997) Patterns of Social Inequality, Longman
`Bulmer. M, ed, (1986) Sociological Research Methods
An Introduction, London, Macmillan

### Llwybrau Dilyniant

Mae Cymdeithaseg Lefel 'A' yn dderbyniol gan brifysgolion ar gyfer amrediad helaeth iawn o gyrsiau gradd. Mae'n darparu sylfaen ardderchog ar gyfer arbenigo'n academaidd ac ar gyfer astudiaeth rhyngddisgyblaethol. Mae hefyd yn ased i'r rhai sy'n dymuno dilyn gyrfaoedd mewn iechyd/lles, meddygaeth. Y gyfraith, addysgu, yr heddlu, y cyfryngau, newyddiaduriaeth etc. Yn wir, nid oes bron yr un yrfa na fyddai'n cael mantais o rywfaint o wybodaeth o gymdeithaseg.

### Am wybodaeth pellach cysylltwch â: Mrs Elin Jones

# Seicoleg

## Uwch Gyfrannol / Uwch

### Crynodeb o'r cwrs

This specification provides a basis for the study of Psychology and related subjects, including work in the Health and Care Sectors, Sports Management, Media and Business Studies and has been designed to provide a suitable foundation for the study of Psychology or a related area of study at further or higher education and/or preparation for future employment. Examples of related areas of study in further or higher education can include degrees e.g. Psychology, Education, Teaching and/or diplomas/certificates in Health, Care Counselling and Sports Studies.

### Sut fyddaf i'n cael fy asesu?

AS Unit 1: Past to Present: Biological, Psychodynamic, Behaviourist, Cognitive and Positive approach

AS Unit 2: Using Psychological Concepts

A2 Unit 3: Implications in the Real World

A2 Unit 4: Applied Research Methods

AS and A level specification in Psychology should encourage candidates to:

- understand the scientific nature of Psychology;
- acquire knowledge and critical understanding of psychological theories, approaches, cocepts, core studies and methods ;
- acquire and develop skills of analysis, interpretation and evaluation;
- understand psychological methodology and a range of research methods both (quantitative and qualitative);
- develop an understanding of different areas and applications of Psychology;
- design and report psychological investigations, and analyse and interpret data;
- appreciate the significance of ethical issues in Psychology;
- develop skills that enhance the ability to participate more effectively in adult life;

### Llwybrau Dilyniant

Career opportunities in applied psychology include, Education, Industry, Child Development, Social, Experimental, Forensic and Counselling. Qualifications at any level in Psychology enhance any career that includes an understanding of human behaviour, Police, Armed Forces, Nursing, Research, marketing, Advertising, Personnel Journalism, Careers Advise, Social Care or even Teaching Primary and Secondary.

**Am wybodaeth pellach cysylltwch â: Mrs Anna Roberts**

# Saesneg
# Uwch Gyfrannol / Uwch

## Crynodeb o'r cwrs

Mae'r cwrs yn cynnig ystod o destunau y gellir eu hastudio. Mae'n hanfodol, os penderfynwch ddilyn y cwrs Llenyddiaeth Saesneg Safon A, eich bod chi'n WIR fwynhau darllen llenyddiaeth. Bydd angen i ymgeiswyr feddu ar gymhelliant da a'r gallu i astudio y tu allan i'r dosbarth. Bydd angen cadw'r gwaith mewn ffeiliau yn drefnus. Rhaid gweithio'n gyflym, a bydd angen i chi allu cadw o fewn terfynau amser. Mae'r ystod o destunau wedi cael eu dewis am eu cyfoeth a'u hamrywiaeth. Mae'r dewisiadau hyn yn cynnwys awduron a beirdd Cymreig. Ceir elfen o'r gwaith cwrs o hyd lle gofynnir i ddysgwyr ddewis dau destun rhyddiaith sy'n esbonio'i gilydd i raddau. Rhaid bod digon o ddeunydd yn y testunau i allu creu cysylltiadau.

## Sut fyddaf i'n cael fy asesu?

**UA Uned 1**
Rhyddiaith a Drama (llyfr caeedig)
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr
20% o'r cymhwyster
Adran A: Ffuglen ryddiaith cyn 1990 – *Jane Eyre (Charlotte Bronte)*
Un cwestiwn mewn dwy ran, wedi'i seilio ar ddarlleniad un testun rhyddiaith o restr benodedig
Adran B: Drama – *Top Girls (Carol Churchill)*
Un cwestiwn wedi'i seilio ar ddarlleniad o un ddrama o restr benodedig

**UA Uned 2**
Barddoniaeth wedi 1990 (llyfr agored, copi glân) - *Seamus Heaney 'Field Work', Owen Sheers 'Skirrid Hill'*
Arholiad ysgrifenedig: 1.5 awr
20% o'r cymhwyster
Adran A: Dadansoddiad beirniadol
Un cwestiwn yn gofyn am ddadansoddiad beirniadol o un gerdd o'r rhestr benodedig.
Adran B: Cymharu barddoniaeth
Un cwestiwn yn gofyn am gymhariaeth o ddau destun barddoniaeth o'r rhestr benodedig ar gyfer yr uned hon.

**A2 Uned 3**
Barddoniaeth cyn 1900 a Barddoniaeth nas Astudiwyd o'r Blaen
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr
20% o'r cymhwyster
Adran A: Barddoniaeth cyn 1900 (llyfr agored)
Un cwestiwn mewn dwy ran, wedi'i seilio ar ddarlleniad o Chaucer's 'The Merchant's Tale and Prologue'.
Adran B: Barddoniaeth nas Astudiwyd o'r Blaen
Un cwestiwn yn gofyn am ddadansoddiad cymharol o ddwy gerdd nas astudiwyd o'r blaen.

**A2 Uned 4**
Shakespeare (llyfr caeedig) – *King Lear*
Arholiad ysgrifenedig: 1.5 awr
20% o'r cymhwyster.
Adran A: Darn o Shakespeare
Adran B: traethawd Shakespeare

**A2 Uned 5**
Astudiaeth Ryddieithol
Asesiad Di-arholiad
20% o'r cymhwyster
Un aseiniad yn cynnwys 2500 i 3500 o eiriau, wedi'i seilio ar ddarlleniad o ddau destun rhyddiaith o wahanol gyfnodau, un cyn 2000 ac un ar ôl 2000, wedi'u henwebu gan y ganolfan.

## Am wybodaeth pellach cysylltwch â: Miss Ffion Williams

# Ail Sefyll Pwnc TGAU

Rhoddir cyfle i fyfyrwyr ailsefyll rhai pynciau TGAU, i ennill graddau gwell, fel rhan o'u llwybr ôl-16. Fodd bynnag yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn mewn cyrsiau iaith/rhifedd TGAU yn unig ac yn cael eu cyflwyno drwy gwricwlwm blwyddyn 11 gyda rhai gwersi ychwanegol a chymorth adolygu.

Mewn eithriadau prin mae yn bosib cael cymeradwyaeth ar gyfer llwybr ailsefyll TGAU yn unig. Rhaid i'r disgyblion bod yn ailsefyll o leiaf 4 pwnc TGAU ar gyfer y llwybr hwn, a dysgir y gwersi yn bennaf ar y cyd hefo Blwyddyn 11. Gwelir hyn fel blwyddyn pontio at gwrs Coleg, prentisiaeth neu fyd gwaith. Fodd bynnag, anogwn i ddisgyblion i sicrhau nad oes llwybr arall megis cwrs yn y coleg neu drwy brentisiaeth fyddai yn cynnig gwell llwybr iddynt cyn cymeradwyo llwybr hon.

**Rhaid i ddisgyblion sydd heb gyrraedd gradd C mewn Mathemateg/Rhifedd a/neu iaith (Cymraeg neu Saesneg) ailsefyll ar gyfer eu cymhwyster BAC Uwch.**

| | | |
|---|---|---|
| **O dan 5 Gradd C** | Ail sefyll cyrsiau lefel 2 gyda blwyddyn 11. | Trwy gymeradwyaeth 4 athro sydd wedi dysgu'r disgybl ym mlynyddoedd 10 ac 11 |



# Ysgol Dyffryn Conwy

01492 642800 cyff@dyffrynconwy.conwy.sch.uk

http://www.dyffrynconwy.org